PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 9 EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Derbyshire, Goddard, Lancaster, Robson, Simmons, Taylor a/ac Wood |

33 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Davies a’r Cynghorydd Jacobsen.

34 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiannau

35 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019 yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

36 : CAIS AM GERBYD MAWREDDOG – TESLA MODEL S

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Tesla Model S fel cerbyd mawreddog â chyfyngiad oed o 10 mlynedd.

37 : CANLLAW WEDI EI ADOLYGU AR BENDERFYNU ADDASRWYDD YMGEISWYR A DEILIAID TRWYDDEDAU YN Y MAES MASNACHU Â CHERBYDAU HACNI A LLOGI PREIFAT

Gofynnir i aelodau’r Pwyllgor ystyried ceisiadau am drwyddedau newydd neu gwynion yn erbyn deiliaid trwyddedau presennol  Wrth benderfynu ar y materion hyn, mae’r awdurdod wedi mabwysiadu polisi i ddarparu canllawiau ar sut i drin euogfarnau, rhybuddion a chyhuddiadau troseddol o ran ymgeiswyr newydd a gyrwyr/gweithredwyr presennol.  Mae’r polisi cyfredol wedi bod ar waith ers 2015.

Hysbyswyd aelodau y cyhoeddodd y Sefydliad Trwyddedu ym mis Ebrill 2018 ddogfen o’r enw ‘Canllawiau ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau Cerbydau Hacni a Masnachwyr Llogi Preifat’.  Atodwyd copi o’r ddogfen i’r adroddiad yn Atodiad A. Crëwyd y Canllawiau ar y cyd â’r Gymdeithas Lywodraeth Leol, Cyfreithwyr Llywodraeth Leol a’r Sefydliad Cenedlaethol dros Drwyddedu Swyddogion Gorfodi, yn dilyn ymgynghori eang.

Ystyriodd Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru y ddogfen a’i chymeradwyo gan argymell i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ei mabwysiadu ac i ddisodli eu polisïau presennol.  Gofynnwyd i aelodau i awdurdodi swyddogion i ymgynghori â’r masnachwyr tacsi lleol ar bolisi drafft yr Awdurdod, a oedd wedi ei adolygu, sydd wedi ei atodi i’r adroddiad yn Atodiad B.

PENDERFYNWYD – Bod yr Adran Drwyddedu yn ymgynghori â’r masnachwyr tacsi lleol ar y polisi drafft.

38 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 am